

## Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

### Dogfen Tariff Cyfanwerthu 2021/22

Mae'r Bwrdd wedi ystyried y Tariffau cyfanwerthu ar gyfer 2021/22 yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020. Nododd y Bwrdd y gofynion gwybodaeth a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynodd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, yn benodol y Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a gafodd ei benodi i roi sicrwydd allanol bod y systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi am y tariffau cyfanwerthu yn gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol fel y nodir uchod, gallwn gadarnhau, hyd y gwyddwn, fod y tariffau a geir yn Nogfen Tariff Cyfanwerthu Dŵr Cymru 2021/22 yn cydymffurfio â'r gwahanol rwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac, yn unol â hynny, maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

O ystyried 'Rheolau Codi Tâl Cyfanwerthu a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E a 117I o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, rydym o'r farn bod ein tariffau yn gyson â'r gofynion hyn, gan ystyried y rheolau codi tâl cyfanwerthu gyda'i gilydd.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael gwybodaeth berthnasol am effeithiau'r tariffau ar gwsmeriaid sy'n byw mewn eiddo cymwys, a gall gadarnhau nad oes disgwyl i unrhyw gwsmer weld ei fil cyfanwerthu yn cynyddu mwy na 5%, gan dybio ei fod yn defnyddio dŵr yn gyson. Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am y gwahaniaeth rhwng y tariffau cyfanwerthu a'r tariffau cyfanwerthu dangosol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, ac mae'n fodlon nad oes unrhyw gynnydd perthnasol yn deillio o'r tariffau terfynol.

Mae'r cwmni wedi gohebu â manwerthwyr sy'n gweithredu yn y rhanbarth ac wedi ymgysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r Tariffau Cyfanwerthu.

Yn ystod cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020, gwnaeth y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb am roi cymeradwyaeth derfynol i Ddogfen Tariff Cyfanwerthu 2021/22, yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn sgil cyhoeddi'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddiannwyr (CPIH) ar 16 Rhagfyr 2020, i'r Cadeirydd.



**Alastair Lyons**  
Cadeirydd

Ar ran y Bwrdd  
17 Rhagfyr 2020